# Unigolyn Hunangyflogedig a Chwmni Gwasanaeth Llawrydd Oddi ar yr Awyr
# Telerau ac Amodau

**1. Contract**

1.1 Ar y gwahanol achlysuron pan fydd y BBC am dderbyn gwasanaeth gennych Chi (pob un yn **"Archeb"**), bydd manylion penodol yr Archeb honno wedi'u nodi yn nogfennau archebu'r BBC a anfonir atoch Chi neu (os yw'n berthnasol) ar y ddalen flaen sydd ynghlwm wrth y telerau ac amodau hyn (y **"Dogfennau Archebu"**).

1.2 Gyda'i gilydd, mae'r Dogfennau Archebu a'r telerau ac amodau hyn yn ffurfio'r Contract rhyngoch Chi a'r BBC.

1.3 Ar gyfer Archebion "awto-dalu", ystyrir eich bod Chi wedi derbyn y Contract wrth ddechrau darparu Eich gwasanaethau, neu os na fyddwch chi'n dychwelyd eich Ffi o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn y taliad, pa un bynnag yw'r cynharaf.

1.4 Ar gyfer pob Archeb arall, ystyrir eich bod Chi wedi derbyn y Contract ar y dyddiad rydych Chi'n cadarnhau eich bod yn derbyn y Dogfennau Archebu.

**2. Parti Contractio'r BBC**

2.1 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr y BBC yw'r aelod o grŵp y BBC a enwir yn y Dogfennau Archebu.

**3. Diffiniadau**

Yn y telerau ac amodau hyn:

*Archebion ar gyfer unigolyn:*

3.1 Mae **"Chi"** yn golygu'r unigolyn a enwir yn y Dogfennau Archebu.

*Archebion ar gyfer cwmni neu sefydliad (gan gynnwys partneriaeth) am wasanaethau'r Unigolyn a Enwir:*

3.2 Mae **"Chi"** yn golygu'r cwmni/sefydliad a enwir yn y Dogfennau Archebu, a bydd y cymalau ychwanegol canlynol yn berthnasol:

(a) Rydych Chi'n gwarantu, yn sicrhau ac yn mynegi mai Chi sy'n rheoli gwasanaethau'r Unigolyn a Enwir.

(b) Rydych Chi'n cydnabod y bydd rhwymedigaethau, ymrwymiadau, gwarantau a sylwadau ar neu gan yr Unigolyn a Enwir yn cael eu dehongli fel cytundeb gennych Chi i sicrhau y bydd yr Unigolyn a Enwir yn cyflawni'r rhwymedigaethau, yr ymrwymiadau, y gwarantau a'r sylwadau hynny.

(c) Mewn perthynas â chymal 32 (**Hawliau Eiddo Deallusol - pob rôl**), rydych Chi'n gwarantu eich bod Chi wedi sicrhau bod yr Unigolyn a Enwir wedi ildio'n ddi-droi'n-ôl unrhyw hawliau moesol a allai fod ganddo o dan ddeddfau unrhyw awdurdodaeth.



© BBC 2026

(d) Os ydych Chi’n gwmni, byddwch Chi'n dal yn gorfforedig ac wedi cofrestru yn y DU ar gyfer yr holl Gyfnod ac ar ôl diddymu byddwch Chi’n trosglwyddo unrhyw rwymedigaethau sy'n weddill drwy hyn i’r Unigolyn a Enwir.

(e) Os ydych Chi’n bartneriaeth, bydd pob partner yn atebol ar y cyd ac yn unigol am eich rhwymedigaethau Chi o dan y Contract hwn.

(f) Os ydych Chi’n darparu gwasanaethau mwy nag un Unigolyn a Enwir, rydych Chi’n gwarantu bod gennych Chi awdurdod ysgrifenedig i rwymo pob Unigolyn a Enwir i’r Contract hwn a bydd y term “Unigolyn a Enwir” yn cynnwys pob unigolyn o’r fath.

3.3 Os ydych Chi o dan 18 oed mae hwn yn Gontract: (a) y mae’r BBC a’ch rhiant/gwarcheidwad Chi yn ymrwymo iddo ar eich rhan Chi; a (b) mae’n amodol ar gael unrhyw drwydded angenrheidiol o dan reoliadau perthnasol sy’n ymwneud â thrwyddedau plant.

3.4 Mae **“Hawliau Eiddo Deallusol”** yn golygu pob hawl sy’n ymwneud â hawlfraint a hawliau cysylltiedig, hawliau o ran dyluniadau, nodau masnach, enwau masnach ac enwau parth, hawliau o ran ewyllys da, diwyg (get-up), neu beri coel (passing-off), hawliau o ran meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau cronfa ddata, hawliau o ran gwybodaeth gyfrinachol (gan gynnwys gwybodaeth ymarferol a chyfrinachau masnachu), patentau a hawliau i syniadau gwreiddiol a hawliau perchnogol eraill ym mhob achos mewn unrhyw ran o’r byd a p'un a ydynt wedi'u cofrestru ai peidio a gan gynnwys pob cais ar gyfer adnewyddu neu ymestyn hawliau o’r fath.

**4. Amser yn Hanfodol**

4.1 Pan fydd dyddiad cyflawni yn cael ei nodi mewn unrhyw Archeb, mae’n hanfodol darparu’r gwasanaethau dan sylw yn amserol. Rydych chi’n cytuno i roi gwybod i’r BBC ar unwaith os byddwch Chi’n dod yn ymwybodol o unrhyw oedi tebygol o ran darparu’r gwasanaethau.

**5. Trefnu Gwasanaethau**

5.1 Rydych chi’n cydnabod mai yn ôl disgresiwn y BBC y bydd yn cynnig derbyn gwasanaeth gennych Chi ac nad oes rheidrwydd ar y BBC i roi rhesymau dros unrhyw benderfyniad ynghylch ymgysylltiadau.

5.2 Ar ôl i Chi dderbyn Archeb, mae contract ar waith rhyngoch Chi a’r BBC ar gyfer y gwasanaethau a nodir yn yr Archeb.

5.3 Bydd pob Archeb yn cael ei thrin fel contract ar wahân y gellir ei wahanu ac ni fydd perthynas rhyngoch Chi a’r BBC yn ystod y cyfnod pan nad ydych Chi wedi cael archeb gan y BBC.



© BBC 2026

5.4 Ni ystyrir y bydd unrhyw beth yn y telerau hyn nac yn nhelerau unrhyw Archeb gyfystyr â pherthynas gyflogaeth rhyngoch Chi a'r BBC ac ni fydd contract cyflogaeth yn bodoli rhyngoch Chi a'r BBC ar unrhyw adeg.

5.5 Os bydd y BBC yn derbyn gwasanaeth gennych Chi fwy nag unwaith, ni fydd hyn yn rhoi unrhyw hawliau cyfreithiol ac ni fydd yn sefydlu hawl i Archebion pellach neu reolaidd gyda'r BBC.

**6. Hawl i Weithio**

6.1 Mae unrhyw Archeb a wneir o dan y telerau hyn yn amodol ar fod gennych Chi hawl i weithio yn y DU, ac ar gynnal yr hawl honno. Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth foddhaol o'ch hawl i weithio yn y DU cyn dechrau ar eich ymgysylltiad, gallai hynny arwain at derfynu'r contract.

**7. Ffi**

7.1 Wrth ystyried y gwasanaethau a ddarperir, mae'r BBC yn cytuno i dalu i Chi'r ffi a nodir yn Eich Dogfennau Archebu.
7.2 Os yw'n berthnasol, ni fydd y Ffi yn cynnwys TAW, oni bai y nodir yn wahanol. Dim ond os ydych Chi wedi cofrestru ar gyfer TAW, ac wedi cydymffurfio â holl ofynion gweithdrefnol perthnasol y BBC, y bydd TAW yn daladwy.
7.3 Dim ond fel y cytunwyd gyda'ch Archebwr neu gyswllt yn y BBC y caniateir taliadau am ddiwrnodau ychwanegol a weithiwyd (os yw'n berthnasol). Oni chytunir fel arall, mae'r ffi a nodir yn Eich Archeb yn hollgynhwysol ac ni fydd taliadau ychwanegol yn ddyledus i Chi e.e. am weithio gyda'r nos neu ar ŵyl y banc.
7.4 Mae'r broses o dalu'r Ffi yn amodol arnoch Chi yn darparu i'r BBC yr wybodaeth gyfredol a chywir sydd ei hangen ar y BBC i brosesu'r taliad ac i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, gan gynnwys eich rhif Yswiriant Gwladol/Nawdd Cymdeithasol Chi, eich enw cyfreithiol Chi, eich dyddiad geni Chi a'ch manylion banc Chi, ymysg pethau eraill.
7.5 Rhaid hawlio talu ffioedd cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl drwy gydymffurfio â phroses y BBC (a fydd yn cael ei hysbysu i Chi). Bydd y BBC yn ymdrechu i dalu symiau o'r fath cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i Chi hawlio'r taliad.
7.6 Ar gyfer Archebion "awto-dalu", ystyrir eich bod Chi wedi derbyn yr Archeb wrth ddechrau darparu Eich gwasanaethau.
7.7 Gall y BBC beidio â thalu, neu dalu'n rhannol, os na ddarparwyd y gwasanaethau yn unol â'r telerau ac amodau hyn a/neu delerau'r Archeb, a gall ddidynnu o'ch taliad Chi unrhyw symiau sy'n ddyledus gennych i'r BBC pryd bynnag yr oedd symiau o'r fath yn ddyledus.

**8. Treuliau**

8.1 Oni chytunir yn benodol â'r BBC, ni fyddwch Chi'n hawlio treuliau ar ben y Ffi. Pan fydd treuliau wedi cael eu cytuno ar gyfer Archeb benodol, mae'n amod cyn i'r BBC wneud unrhyw daliad i Chi bod y treuliau wedi codi'n rhesymol, yn briodol ac yn angenrheidiol gennych Chi wrth gyflawni'r gwasanaethau, ac nad yw'r treuliau'n fwy na'r hyn y byddai gan gyflogai'r BBC hawl i'w cael o dan



© BBC 2026

bolisïau perthnasol y BBC, a'ch bod Chi wedi cyflwyno tystiolaeth ategol briodol i'r BBC o'r treuliau a gafwyd.

**9. Terfynau Cyllidebol y BBC**

9.1 Byddwch yn cydymffurfio â therfynau cyllidebol perthnasol y BBC (os yw'n berthnasol) sydd wedi cael eu darparu gan y BBC. Rydych chi'n cydnabod os byddwch Chi'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau o'r fath heb gael caniatâd gan y BBC ymlaen llaw, yna ni fydd yn rhaid i'r BBC eich ad-dalu Chi mewn perthynas ag unrhyw symiau dros derfynau o'r fath.

9.2 Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y BBC yn gofyn i Chi fel rhan o Archeb i weithredu fel asiant prynu a/neu dalu'r BBC ar gyfer prynu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau ar ran y BBC. Os felly, bydd yn rhaid cytuno ar unrhyw wariant gyda'r BBC yn ysgrifenedig cyn prynu a byddwch Chi'n sicrhau eich bod yn cael anfoneb TAW yn enw'r BBC. Dim ond pan fydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno y bydd hawliadau'n cael eu had-dalu.

**10. Gwarantau**

10.1 Chi eich hun sy'n gyfrifol am Eich cynlluniau ariannol a'ch cyngor treth, ac nid yw'r BBC yn derbyn unrhyw atebolrwydd yn hyn o beth.

*Archebion ar gyfer unigolyn*

10.2 Rhaid i chi gydymffurfio, a chi yn unig sy'n gyfrifol am gydymffurfio, ag unrhyw a phob deddf a rheoliad perthnasol pan rydych yn atebol am dalu treth neu gyfraniadau yswiriant gwladol o ran y gydnabyddiaeth a gafwyd gan y Contract hwn.

10.3 Os bydd tribiwnlys treth CThEF neu gorff dyfarnol arall sydd ag awdurdodaeth briodol yn penderfynu nad ydych wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn, bydd gan y BBC yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn syth, yn amodol ar dalu cyfran deg o'r Ffi(oedd) a bennir gan y BBC ar ôl trafod gyda Chi am waith a wnaed yn barod cyn y dyddiad terfynu.

10.4 Os bydd CThEF neu gorff neu awdurdod perthnasol arall yn gwneud unrhyw hawliad yn erbyn y BBC mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau treth neu yswiriant gwladol Chi, rhaid i Chi indemnio a digolledu BBC yn llawn rhag hawliad(au) o'r fath i'r graddau mwyaf posibl.

*Archebion â chwmni*

10.5 Os byddwch Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, yr Unigolyn a Enwir) yn atebol i dalu treth yn y DU mewn perthynas â chydnabyddiaeth a dderbynnir o dan y Contract hwn, rhaid i Chi sicrhau eich bod Chi, a bod yr Unigolyn a Enwir, yn cydymffurfio bob amser â Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a phob statud a rheoliad arall sy'n ymwneud â threth incwm mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth honno.

10.6 Os byddwch Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, yr Unigolyn a Enwir) yn atebol i wneud Cyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn



© BBC 2026

perthynas â chydnabyddiaeth a dderbynnir o dan y Contract hwn, rhaid i Chi sicrhau eich bod Chi, a bod yr Unigolyn a Enwir, yn cydymffurfio bob amser â Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (SSCBA) a phob statud a rheoliad arall sy'n ymwneud â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth honno.

10.7 Caiff y BBC, ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod, ofyn i Chi ddarparu gwybodaeth sy'n dangos sut rydych Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, yr Unigolyn a Enwir) yn cydymffurfio â chymalau 10.5 a 10.6 uchod, neu pam nad yw'r cymalau hynny'n berthnasol.

10.8 Gall cais o dan gymal 10.7 uchod amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i Chi (neu'r Unigolyn a Enwir) ei darparu ac erbyn pryd y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth honno.

10.9 Caiff y BBC derfynu'r Contract hwn os:

(a) yn achos cais a grybwyllwyd yng nghymal 10.7 uchod:

(i) eich bod Chi heb ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i'r cais o fewn cyfnod rhesymol; neu

(ii) eich bod Chi'n darparu gwybodaeth sy'n annigonol i ddangos naill ai sut rydych Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, yr Unigolyn a Enwir) yn cydymffurfio â chymalau 10.5 a 10.6 uchod neu pam nad yw'r cymalau hynny'n berthnasol i Chi;

(b) yn achos cais a grybwyllwyd yng nghymal 10.7 uchod, y byddwch Chi'n methu darparu'r wybodaeth benodedig o fewn y cyfnod penodedig; neu

(c) os bydd y BBC yn derbyn gwybodaeth sy'n dangos, ar unrhyw adeg pan fydd cymalau 10.5 a 10.6 yn berthnasol i Chi (a, lle bo hynny'n berthnasol, yr Unigolyn a Enwir), bod naill ai Chi, yr Unigolyn a Enwir, neu'r Unigolyn a Enwir na chithau yn cydymffurfio â'r cymalau hynny.

10.10 Caiff y BBC ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'n ei derbyn o dan y cymal hwn i CThEF at ddibenion casglu a rheoli'r refeniw y mae'n gyfrifol amdano.

10.11 Byddwch Chi'n sicrhau bod telerau ysgrifenedig rhyngoch Chi a'r Unigolyn a Enwir cyn llofnodi'r Contract hwn, sy'n gorfodi'r Unigolyn a Enwir i gydymffurfio'n bersonol â gofynion cymalau 10.5, 10.6, 10.7 a 10.8 uchod mewn perthynas ag unrhyw gydnabyddiaeth y bydd yr Unigolyn a Enwir yn ei derbyn mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

10.12 Os bydd CThEF neu gorff neu awdurdod perthnasol arall yn gwneud unrhyw hawliad yn erbyn y BBC mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau treth neu Yswiriant Gwladol Chi neu rwymedigaethau treth neu Yswiriant Gwladol yr Unigolyn a Enwir, rhaid i Chi a/neu'r Unigolyn a Enwir indemnio a



© BBC 2026

digolledu BBC yn llawn rhag hawliad(au) o'r fath i'r graddau mwyaf posibl.

**11. Iechyd**

11.1 Rydych Chi'n gwarantu nad ydych Chi'n gwybod am unrhyw gyflwr iechyd a allai effeithio ar eich gallu Chi i ddarparu'r gwasanaethau

**12. Disodli Unigolion**

12.1 Os nad ydych Chi, am ba reswm bynnag, yn gallu cyflawni gwasanaethau yn unol â'r Archeb ac yn unol â'r telerau hyn, byddwch Chi'n rhoi gwybod i'r BBC, ac yn darparu rhywun arall addas i gyflawni gwasanaethau o'r fath, sy'n dderbyniol i BBC, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

12.2 Er gwaethaf yr uchod lle nad ydych Chi'n gallu darparu dewis arall sy'n dderbyniol i'r BBC, mae'r BBC yn cadw'r hawl i ddod â'ch Archeb Chi i ben.

**13. Cymhwysedd**

13.1 Rydych Chi'n tystio eich bod Chi'n gymwys i ddarparu'r gwasanaethau.
13.2 Bydd Eich cymhwysedd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gael y profiad, yr hyfforddiant a/neu'r cymwysterau perthnasol a byddwch Chi'n darparu'r safon ddisgwyliedig o ran sgiliau, gofal a diwydrwydd priodol fel y byddai'n rhesymol i'w ddisgwyl gan unigolyn proffesiynol sy'n ymgymryd â'r rôl (gan gynnwys gweithredu o fewn cyllidebau os yw hyn yn rhan o'r rôl a gwaith cyn ac ôl cynhyrchu ac ailfformatio os yw'n briodol).
13.3 Os nad ydych Chi'n dangos y cymhwysedd hwn, gallai'r BBC derfynu'r Archeb ar unwaith.

**14. Cyfnod**

14.1 Bydd grym ac effaith y Contract yn parhau'n llawn am y cyfnod a nodir o dan y 'Dyddiadau Archebu' yn y Dogfennau Archebu ('y Cyfnod').

14.2 Os bydd unrhyw rwymedigaethau wedi eu cyflawni eisoes gan unrhyw barti i unrhyw raddau, ystyrir i bob diben bod y rhwymedigaethau hynny wedi cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau'r Contract hwn ac yn amodol arnynt.

14.3 Er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, mae'r rhwymedigaethau o dan gymalau 10 Gwarantau, 26 Indemniad, 18 Cyfrinachedd, 38 Didyniadau a 41 Cyfraith Lywodraethol yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod.

**15. Ymddygiad Disgwyliedig**

15.1 Yn ystod eich ymgysylltiad, rhaid i Chi gydymffurfio â Chod Ymddygiad y BBC, Gwerthoedd y BBC a'r polisïau a'r canllawiau sy'n berthnasol i'ch ymgysylltiad Chi, sydd i'w gweld yma: Polisïau a Chanllawiau. Os byddwch chi'n gweld pobl eraill sy'n gweithio yn y BBC yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â Chod Ymddygiad y BBC a Gwerthoedd y BBC, gallwch godi hyn yn unol â'r Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid bodloni'r



© BBC 2026

safonau ymddygiad hyn, a gallai peidio â gwneud hynny olygu bod y contract hwn wedi cael ei dorri'n sylweddol.

**16. Gwiriadau Cofnod Troseddol**

16.1 Rydych Chi'n cytuno i gael gwiriad DBS neu os ydych chi yn yr Alban, i ymaelodi â chynllun PVG, os yw'r BBC yn credu bod hyn yn briodol.

**17. Pensiwn (dim ond yn berthnasol os yw'r contract hwn yn bensiynadwy)**

17.1 Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod y rhai sy'n ymgysylltu yn darparu trefniant pensiwn yn y gweithle ar gyfer eu gweithwyr; gelwir hyn yn "gofrestru'n awtomatig am bensiwn" (**"PAE"**). Mae'r BBC wedi dewis NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol) fel ei ddarparwr PAE. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i ddefnyddio darparwr arall ar wahân i NEST o ran PAE unrhyw bryd yn y dyfodol.

17.2 Mae'r BBC wedi dewis gohirio cofrestru awtomatig am dri mis; felly (ar yr amod eich bod Chi yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys o ran eich oedran a'ch enillion) byddwch Chi yn cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig dri mis ar ôl dechrau'r Cyfnod. Bydd rhagor o fanylion am NEST, a fydd angen eich cofrestru Chi yn awtomatig, a'r buddion pensiwn sydd ar gael i Chi yn ystod eich Archeb yn cael eu darparu i Chi ar ôl i Chi ddechrau gweithio i'r BBC. Os byddwch Chi yn cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig, gallwch Chi ddewis optio allan o NEST ond dim ond ar ôl i Chi gael eich cofrestru'n awtomatig.

17.3 Hefyd, os oes gennych Chi dipyn o gynilion pensiwn eisoes a'ch bod wedi cofrestru ar gyfer statws Gwarchodaeth Benodol neu Warchodaeth Uwch gyda CThEF yn y gorffennol, dylech Chi fod yn ymwybodol y gallai ymuno â chynllun pensiwn gyda'r BBC wneud i Chi golli budd eich Gwarchodaeth Benodol neu Uwch yn y dyfodol. Os ydych Chi yn credu y gallai hyn fod yn berthnasol i chi, byddai'r BBC yn argymell eich bod Chi yn gofyn am gyngor ariannol annibynnol ynghylch eich buddion pensiwn a'ch sefyllfa o ran treth.

17.4 Rydych Chi yn ymrwymo i roi Eich enw cyfreithiol i'r BBC er mwyn iddo allu cyflawni ei rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Cofrestru'n Awtomatig am Bensiwn.

**18. Cyfrinachedd**

18.1 Ni chewch ac ni fyddwch yn gwneud y canlynol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y BBC:

(a) Ysgrifennu am y BBC neu ei faterion ar gyfer cyhoeddiad neu siarad yn gyhoeddus am hynny; neu
(b) Cyhoeddi neu ddatgelu yn fwriadol i unrhyw un o dan unrhyw amgylchiadau, unrhyw gyfrinach neu wybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â materion busnes y BBC, ei gyflenwyr neu ei gwsmeriaid, y byddant yn dod i wybod amdano drwy eu harcheb gyda'r BBC; neu
(c) Cyhoeddi neu ddosbarthu (gan gynnwys dosbarthu ar-lein sy'n cynnwys, heb gyfyngiad, Facebook, Instagram, TikTok ac X) unrhyw ffotograffau neu



© BBC 2026

ddelweddau fideo y gellir eu tynnu tra byddwch ar safleoedd/lleoliadau'r BBC.

18.2 Ni fyddwch Chi, ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract nac ar unrhyw adeg ar ôl ei derfynu, yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol i unrhyw drydydd parti (ac eithrio eich cynghorwyr proffesiynol neu pan fydd yn ofynnol datgelu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, corff rheoleiddiol neu lys ag awdurdodaeth gymwys), gan gynnwys telerau cyfrinachol y Contract hwn ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion a chyllid y BBC neu'r darlledwr comisiynu perthnasol (gan gynnwys allbwn, a gwybodaeth breifat am unigolion y dewch Chi ar ei thraws yn ystod Eich Archeb). Ni fydd y cymal hwn yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu a ddaw ar gael i'r cyhoedd wedyn ac eithrio drwy weithred neu anweithred gennych Chi.

18.3 Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn yn eich atal Chi rhag: gwneud datgeliad cyflog perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; na gwneud datgeliad cymwys fel y'i diffinnir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

**19. Polisïau'r BBC**

19.1 Yn ystod Eich Archeb gyda'r BBC, rydych Chi'n cadarnhau y byddwch Chi'n cydymffurfio â Pholisi Diogelu'r BBC, a holl bolisïau eraill y BBC sy'n berthnasol i'ch rôl Chi.

19.2 Mae'r BBC yn cadw'r hawl i ddiwygio ei bolisïau, ei ganllawiau a'i weithdrefnau yn unol ag anghenion busnes a/neu ddatblygiadau perthnasol mewn deddfwriaeth neu arferion busnes.

19.3 Os na fyddwch Chi'n cydymffurfio â pholisïau'r BBC, gellir terfynu Eich archeb gyda'r BBC.

Dolen i: Polisïau'r BBC.

**20. Datgan Buddiannau Personol**

20.1 Mae'n rhaid i Chi ddarllen Polisi Datgan Buddiannau Personol y BBC. Os oes gennych Chi unrhyw fuddiannau personol i'w datgan, mae'n rhaid i Chi lenwi ffurflen Datgan Buddiannau Personol fel y nodir yn Eich Dogfennau Archebu.

**21. Prynu**

21.1 Os bydd angen i Chi brynu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o'ch rôl, rydych Chi'n cytuno i gydymffurfio â Pholisi Caffael y BBC sydd i'w weld yma: Polisïau'r BBC

**22. Gwrth-lwgrwobrwyo**

22.1 Rydych yn cytuno i gydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a Pholisi Gwrth-lwgrwobrwyo a Throseddau Ariannol y BBC sydd i'w weld yma: Polisïau'r BBC



© BBC 2026

22.2 Ystyrir eich bod wedi torri'r contract yn sylweddol os byddwch yn torri'r rhwymedigaeth hon, a gall y BBC derfynu Eich Archeb.

**23. Cydymffurfiaeth Olygyddol**

23.1 Rydych Chi'n cytuno i Ganllawiau Golygyddol a chanllawiau cysylltiedig y BBC, ac yn gweithio'n unol â nhw, ac rydych Chi'n cydnabod bod y rhain yn cael eu hamrywio o bryd i'w gilydd.

23.2 Ystyrir eich bod wedi torri'r contract yn sylweddol os byddwch yn torri'r rhwymedigaeth hon o dan y telerau ac amodau hyn, a gellir terfynu Eich Archeb.

**24. Iechyd a Diogelwch**

24.1 Rydych Chi'n gyfrifol am gydymffurfio â'r safonau iechyd a diogelwch fel sy'n briodol yn amgylchiadau'r Archeb a byddwch bob amser yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch cyfredol y BBC, sydd i'w gweld ar safle Diogelwch y BBC.

**25. Yswiriant**

25.1 Os ydych Chi'n creu cynnyrch, rydych Chi'n gyfrifol am drefnu a chynnal yswiriant cynnyrch digonol.

25.2 Os ydych Chi'n darparu offer, rydych Chi'n gyfrifol am yswirio'r offer hwnnw.

25.3 Mae manylion trefniadau perthnasol y BBC a allai fod ar gael i Chi (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd) wrth weithio i'r BBC o dan y Contract hwn i'w gweld yma ar Borth Gweithwyr Llawrydd y BBC ac ar wefan y BBC.

25.4 Mae gofynion yswiriant penodol yn berthnasol i rai rolau. Mae'r rolau hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

(a) Arbenigwyr Effeithiau Arbennig a Phyrotechneg
(b) Arfogwyr
(c) Unigolion sy'n cael eu cyflogi'n benodol i ddarparu gwasanaethau diogelwch/amddiffyniad personol neu wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch
(d) Unigolion sy'n cael eu cyflogi'n benodol i ddarparu gwasanaethau goruchwylio mynediad â rhaff a deifio sgwba
(e) Unigolion sy'n darparu a/neu'n goruchwylio rhyngweithio ag Anifeiliaid Peryglus fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus berthnasol (neu reoliadau sy'n ei disodli)
(f) Unigolion sy'n darparu gwasanaethau fel Arweinwyr Teithiau
(g) Unigolion sy'n darparu gwasanaethau meddygol (e.e. Meddygon Ymgynghorol, Meddygon, Parafeddygon, Nyrsys, ac ati)
(h) Unigolion sy'n cael eu cyflogi fel ymgynghorwyr rheoli.

25.5 Os ydych Chi'n cael eich cyflogi ar gyfer rôl a restrir yn (a) i (f) ac yn cael tâl gros neu'n cael eich cyflogi ar gyfer unrhyw rôl



© BBC 2026

arall lle mae angen yswiriant penodol, byddwch Chi'n trefnu ac yn cynnal Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol gydag yswiriwr dibynadwy a, lle bo hynny'n berthnasol, Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch a/neu Yswiriant Indemniad Proffesiynol ac fe fydd gan bob un o'r rhain gyfyngiad atebolrwydd o ddim llai na dwy filiwn o bunnoedd sterling (£2,000,000) i bob digwyddiad gyda chwmpas y warchodaeth yn briodol i'r elfennau sydd i'w cyflawni o dan yr Archeb.

25.6 Os derbynnir gwasanaeth gennych Chi fel Ymgynghorydd Rheoli, mae lefel sylfaenol yr Yswiriant Indemniad Proffesiynol yn cael ei gostwng i filiwn o bunnoedd sterling (£1,000,000) i bob digwyddiad.

25.7 Gall y BBC amrywio gofynion yswiriant o'r fath, a'r mathau o wasanaethau y maent yn berthnasol iddynt, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y lefelau isaf ar gyfer yswiriant o'r fath yn gyfyngiad ar atebolrwydd o dan yr archeb.

25.8 Ar gais y BBC, byddwch Chi'n rhoi copïau o'r polisïau yswiriant a gedwir yn unol â'r telerau hyn a/neu'r rhai a nodir yn y Dogfennau Archebu.

**26. Indemniad**

26.1 Byddwch Chi bob amser yn indemnio'r BBC yn llawn mewn perthynas ag unrhyw ganlyniadau a allai ddilyn ar ôl i Chi dorri unrhyw rwymedigaethau neu warantau a roddwyd gennych Chi o dan y Contract hwn, yn dilyn Eich gweithredoedd neu anweithredoedd bwriadol neu esgeulus.

26.2 Mae hyn yn cynnwys unrhyw hawliadau a wneir gan drydydd partïon o ganlyniad i weithredoedd neu anweithredoedd gennych Chi, yn ôl y digwydd (gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol a ddarperir o dan y telerau hyn neu delerau unrhyw archebion, neu a ddefnyddir mewn cysylltiad â nhw)

26.3 Ni fyddwch Chi na'r BBC yn atebol am unrhyw golledion "canlyniadol" neu "arbennig" neu "anuniongyrchol", colli elw, refeniw a/neu fusnes, arbedion disgwyliedig, ym mhob achos, p'un ai a yw'r partïon yn ystyried hyn wrth ymrwymo i unrhyw Archeb neu beidio, oni nodir hynny'n ffurfiol yn yr Archeb.

26.4 Bydd yr indemniadau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y cymal hwn yn goroesi terfynu'r Contract hwn.

**27. Gyrru ar Fusnes y BBC**

27.1 Os bydd angen i Chi yrru at ddibenion cyflawni'r gwasanaethau yn ystod Eich archeb gyda'r BBC (p'un a yw'r BBC wedi cytuno i dalu ffi am wneud hynny neu beidio), mae'n rhaid i Chi gael datganiad gyrwyr cyfredol y BBC a thrwydded yrru briodol.

27.2 Os byddwch Chi'n darparu cerbyd, bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth y BBC i ddefnyddio'r cerbyd a bydd yn rhaid cydymffurfio â'r Weithdrefn Cerbydau Modur (sydd i'w gweld



© BBC 2026

yma: Polisïau'r BBC) gan gynnwys y gofyniad eich bod Chi'n dal yswiriant cerbyd modur priodol.

27.3 Byddwch yn cytuno i ddarparu gwybodaeth a dogfennau i'r BBC, ar gais, i ddangos eich bod yn cydymffurfio â gofynion y BBC.

**28. Offer**

28.1 Os ydych Chi'n defnyddio unrhyw offer yn ystod eich Archeb gyda'r BBC, byddwch Chi'n cytuno i gydymffurfio â chanllawiau'r BBC ynglŷn â defnyddio TG ac offer cysylltiedig, gan gynnwys Polisi Defnyddio Technoleg y BBC, sydd i'w weld yma: Polisïau'r BBC

28.2 Os byddwch Chi'n darparu offer at ddibenion eich gwasanaethau Chi, fe fyddwch Chi'n gyfrifol am y gwaith o ofalu, rheoli, diogelu, yswirio a chynnal a chadw offer o'r fath.

28.3 Efallai y bydd y BBC yn darparu man storio ar gyfer unrhyw offer, ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hynny.

**29. Aseiniad/ Is-gontractwyr**

29.1 Ni fyddwch Chi, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y BBC, yn aseinio nac yn is-gontractio unrhyw rai o'ch hawliau na'ch rhwymedigaethau Chi o dan y telerau a'r amodau hyn, nac mewn perthynas ag unrhyw archeb, i unrhyw drydydd parti.

29.2 Pan fyddwch Chi'n cyflogi is-gontractwr ar gyfer gwaith sy'n ymwneud ag awyrennau (gan gynnwys hofrenyddion, balwnau, awyrennau model, parasiwtiau); arfogwyr; asbestos; deifio; ffrwydron, pyrotechneg ac effeithiau tân; bale sy'n defnyddio gwifrau; contractwyr teclynnau codi hydrolig; laserau; goleuadau lleoliad; sgaffaldiau a strwythurau tebyg; rigio a gwifrau arbenigol; artistiaid effeithiau mwg a styntiau, dim ond ar gyfer y diben hwnnw y byddwch Chi'n defnyddio'r is-gontractwyr hynny, sydd wedi cael eu fetio ymlaen llaw gan y BBC, a bydd y BBC yn rhoi rhestr i Chi ar gais.

29.3 Byddwch Chi'n cael asesiad risg ysgrifenedig gan yr is-gontractwr ac yn cynnwys asesiad o'r fath yn eich asesiad risg Eich hun.

29.4 Mae'r BBC yn cadw'r hawl i amrywio'r math o waith y mae'n ofynnol i'r BBC gael is-gontractwyr wedi'u fetio ymlaen llaw ar eu cyfer, a bydd yn rhoi gwybod i Chi am hynny.

29.5 Er mai Chi sy'n atebol am unrhyw aseiniad/is-gontractwr, bydd unrhyw is-gontractwr a ddefnyddir gennych Chi yn ddarostyngedig i'r un rhwymedigaethau o dan y telerau ac amodau hyn ac unrhyw delerau penodol a nodir yn Eich Dogfennau Archebu.

29.6 Byddwch yn sicrhau bod yr is-gontractwr yn cydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn, gan gynnwys, os gofynnir amdano, cael ymrwymiad gan yr is-gontractwr o blaid y BBC, rhwymo'r is-gontractwr i gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn a rhoi'r



© BBC 2026

holl wybodaeth berthnasol a ddarperir gan y BBC i Chi i'r is-gontractwr.

29.7 Rydych Chi'n gwarantu y bydd gan unrhyw asiant neu is-gontractwr sy'n cael ei gyflogi gennych i helpu i ddarparu gwasanaethau hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig a, heb ragfarn i'r uchod, nad ydych Chi wedi torri Adran 8(1) o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002.

**30. Diogelwch/Mynediad/ Arolygu**

30.1 Pan ofynnir i chi, rydych chi'n cytuno i roi dogfennau adnabod dilys i'r BBC.

30.2 Byddwch Chi'n cael cardiau adnabod neu drwyddedau mynediad gan y BBC ac yn eu harddangos tra byddwch Chi ar safleoedd y BBC. Byddwch yn dychwelyd y cardiau neu'r trwyddedau hyn i'r BBC pan fydd yr Archeb yn dod i ben neu'n cael ei therfynu.

30.3 Efallai y bydd y BBC yn cynnal archwiliadau diogelwch ar hap gan gynnwys archwilio eich eiddo a'ch cerbyd(au) Chi tra byddwch ar safleoedd y BBC.

30.4 Efallai y caniateir mynediad i Chi i safleoedd y BBC a chyfleusterau'r BBC fel rhan o'ch Archeb. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un y mae'r BBC yn credu ei fod yn annerbyniol am unrhyw reswm ar wahân i rwystro'r archeb yn unig.

30.5 Rydych Chi'n cytuno i ganiatáu mynediad i'r BBC i'ch safle Chi neu i unrhyw safle arall y gallai ofyn yn rhesymol i gael mynediad iddo yn gysylltiedig â chyflawni gwasanaethau.

30.6 Rydych Chi'n cytuno y byddwch Chi'n dychwelyd i'r BBC ei holl eiddo, o ba bynnag fath, gan gynnwys cardiau adnabod neu drwyddedau mynediad i safleoedd y BBC, ni waeth beth fo'r amgylchiadau a arweiniodd at derfynu neu ddod â'r Archeb i ben. Ystyrir bod gan y BBC yr holl bwerau ac awdurdod yn ddi-droi'n-ôl i fynd ar eich safle Chi neu i unrhyw safle arall i adfeddiannu a chymryd eitemau o'r fath ac adennill y costau o wneud hynny gennych Chi.

**31. Didwylledd/gweithgareddau allanol/cyhoeddusrwydd**

31.1 Byddwch yn cytuno i weithredu'n ddidwyll bob amser tuag at y BBC ac ni fyddwch yn dwyn anfri ar y BBC, nac yn cyfeirio at y BBC mewn unrhyw ddeunydd hysbysebu na hyrwyddo, nac yn siarad yn gyhoeddus am y BBC na'i faterion, heb gael caniatâd gan y BBC ymlaen llaw.

**32. Deallusol**

32.1 Oni ddarperir yn benodol fel arall ar ei gyfer mewn unrhyw Ddogfennau Archebu neu gytundeb atodol a wneir mewn



© BBC 2026

**Eiddo Deallusol - pob rôl**

cysylltiad ag Archeb, bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn perthynas ag unrhyw waith (gan gynnwys gwaith yn y dyfodol) sy'n cael ei greu gennych Chi wrth ddarparu eich gwasanaethau Chi gyda'r BBC, boed hynny wrth gyflawni Eich dyletswyddau ("y Gwaith") ai peidio, yn cael eu breinio yn y BBC ac rydych Chi drwy hyn yn neilltuo i'r BBC yr holl hawliau o'r fath mewn perthynas â'r Gwaith ynghyd â'r holl hawliau cysylltiedig, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw achosion o dorri'r hawliau hyn.

32.2 Ar gais y BBC, byddwch Chi'n gwneud popeth sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol i weithredu hawliau'r BBC o dan y cymal hwn.

32.3 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae gan y BBC yr hawl i olygu, copïo, newid ac addasu'r holl Waith ac rydych Chi'n ildio unrhyw hawliau moesol a allai godi o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, a phob hawl debyg mewn awdurdodaethau eraill.

32.4 Byddwch Chi'n datgelu'n brydlon i'r BBC yr holl Waith sy'n cael ei wneud gennych Chi (boed hynny ar eich pen eich hun neu gydag eraill) yn ystod cyfnod unrhyw Archeb sydd gennych Chi gyda'r BBC.

32.5 Ni fyddwch Chi'n gwneud cais i gofrestru, nac yn gwrthwynebu unrhyw gais gan y BBC i gofrestru, unrhyw Waith na Hawliau Eiddo Deallusol eraill y BBC. Ni fyddwch Chi'n mynd ati'n fwriadol i wneud unrhyw beth sy'n peryglu cofrestriad, dilysrwydd neu orfodadwyedd unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol y BBC, nac i achosi i hynny ddigwydd.

**33. Eiddo Deallusol Ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynhyrchwyr/ Cyfarwyddwyr Teledu a Radio yn unig**

33.1 Mae'r hawliau a roddir o dan 32 uchod yn cynnwys aseiniad gyda gwarant teitl llawn o Hawliau Eiddo Deallusol ym mhob Gwaith a wneir gennych Chi o dan y telerau ac amodau hyn lle rydych Chi'n brif gyfarwyddwr a/neu'n cyfrannu at sgriptiau.

33.2 Rydych Chi'n gwarantu mai Chi yw unig berchennog cyfreithiol a llesiannol yr hawliau a neilltuir yn 32 uchod ac nad ydych Chi wedi neilltuo na thrwyddedu ac na fyddwch yn neilltuo nac yn trwyddedu unrhyw un o'r hawliau (ac eithrio'r hawl i gydnabyddiaeth deg sy'n deillio o ddefnyddio hawliau rhentu a benthyg) ac eithrio fel y nodir yn 32 uchod.

**34. Cynhyrchion**

34.1 Os yw cynhyrchion yn cael eu darparu neu eu cynhyrchu gennych Chi, rydych Chi'n gwarantu eu bod yn addas i'r diben y maent yn cael eu cyflenwi ar ei gyfer a, lle bo hynny'n berthnasol, eu bod o ansawdd boddhaol, eu bod wedi'u llunio'n dda, gyda deunydd addas a chadarn, a chryfder digonol, a'u bod wedi cael eu profi cyn eu darparu.

34.2 Byddwch yn sicrhau, ar ran y BBC, pob cydsyniad, caniatâd a/neu gliriad angenrheidiol gyda hawliau trydydd parti (gan gynnwys Hawliau Eiddo Deallusol) mewn perthynas â'r cynhyrchion.



© BBC 2026

34.3 Bydd unrhyw gynnyrch a ddarperir neu a gynhyrchir gennych Chi yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau a chodau ymddygiad perthnasol cyfredol.

34.4 Bydd y cynnyrch yn cael ei gadw mewn ffordd addas a diogel ar eich menter eich hun nes iddo gael ei ddanfon i'r BBC.

34.5 Pan fydd y BBC yn darganfod, adeg danfon neu gasglu neu ar ôl hynny, nad yw'r cynnyrch/cynhyrchion yn cydymffurfio ag archeb fel y nodir, gall y BBC dderbyn neu wrthod y cyfan neu unrhyw ran ohono ac os caiff ei wrthod, gall y BBC adennill unrhyw daliadau a wnaed am y cynnyrch a wrthodwyd.

**35. Cydsyniad ar gyfer recordio/darlledu**

35.1 Rydych Chi'n cytuno, heb ganiatâd pellach, i wneud y canlynol mewn unrhyw ffordd sy'n hysbys nawr neu a ddyfeisir yn y dyfodol:

(a) recordio unrhyw gyfraniad neu berfformiad o unrhyw fath (boed yn berfformiad at ddibenion Rhan II o Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 ai peidio, gan gynnwys cyfweliadau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) y gallwch Chi eu rhoi ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod archeb ar gais y BBC mewn unrhyw un o raglenni'r BBC (p'un a ydynt yn cael eu darlledu ai peidio); a

(b) atgynhyrchu, darlledu neu roi gwybod fel arall i'r cyhoedd am gofnod o unrhyw gyfraniad neu berfformiad o'r fath neu awdurdodi eraill i wneud hynny ar unrhyw adeg boed hynny yn ystod neu ar ôl terfynu'r archeb.

35.2 Bydd telerau unrhyw berfformiad a roddir y tu allan i ddyletswyddau arferol o dan unrhyw archeb sydd gennych Chi gyda'r BBC yn cael ei lywodraethu gan y math priodol o gontract sy'n ofynnol gan y BBC ar yr adeg dan sylw.

35.3 Rydych yn cytuno i roi i'r BBC unrhyw a phob cydsyniad angenrheidiol o ran hawliau eiddo mewn perthynas â hawliau perfformwyr o dan Ran II o Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygir neu y'i diweddarir yn y dyfodol, a phob cydsyniad perfformwyr eraill a hawliau eiddo o dan unrhyw gyfraith neu ddeddfwriaeth gyfredol neu yn y dyfodol sydd mewn grym mewn unrhyw ran o'r byd er mwyn galluogi'r BBC i wneud y defnydd llawnaf o'r perfformiadau.

**36. Rheolaeth Olygyddol**

36.1 Rydych Chi'n cydnabod mai'r BBC sydd â'r rheolaeth olygyddol derfynol ac nad oes yn rhaid i'r BBC ddarlledu unrhyw raglen rydych Chi wedi darparu gwasanaethau ar ei chyfer.

36.2 Os ydych Chi'n cyflawni gwasanaethau fel **Cyfarwyddwr, Cynhyrchydd neu Gynhyrchydd/Cyfarwyddwr**, gellir:



© BBC 2026

36.3 Eich gwahodd, yn amodol ar rybudd rhesymol, i ddarparu gwasanaethau ategol i unrhyw Archebion sydd gennych Chi y tu allan i'r cyfnod Archebu. Bydd y BBC yn gwneud pob ymdrech bosibl, yn amodol ar anghenion gweithredol a golygyddol y BBC, i drefnu i ddarparu gwasanaethau ategol o'r fath ar amser pan fyddwch Chi ar gael. Os na fyddwch Chi ar gael i ddarparu gwasanaethau o'r fath ar amser sy'n cyd-fynd â'r anghenion hyn, bydd gan y BBC yr hawl i fynnu gwasanaethau o'r fath gan Gyfarwyddwr/Cynhyrchydd/Cynhyrchydd-Cyfarwyddwr arall.

36.4 Rydych Chi'n cydnabod bod y gydnabyddiaeth a nodir yn y Dogfennau Archebu yn ystyried yr amgylchiadau i gyd a'ch bod Chi o'r farn bod hynny'n cynnwys cydnabyddiaeth deg mewn perthynas â rhentu eich cyfraniadau Chi.

36.5 Bydd gennych Chi hawl i gael ad-daliad am dreuliau y telwch Chi'n unig amdanynt yn llawn wrth ddarparu Eich gwasanaethau, a bydd yr amodau sy'n ymwneud â threuliau a nodir yng nghymal 8 yn berthnasol.

36.6 Os ydych Chi wedi cael eich contractio fel **Cyfarwyddwr Teledu** ar gyfer unrhyw archeb, ar yr amod eich bod Chi (i) yn darparu'r holl wasanaethau sy'n ofynnol o dan unrhyw Archeb(ion) ac (ii) ddim yn peidio â chadw at y telerau ac amodau hyn yn sylweddol nac unrhyw delerau yn y Dogfennau Archebu, byddwch Chi'n cael cydnabyddiaeth "Cyfarwyddo" mewn copïau o'r rhaglen a wneir gan y BBC fel cyfarwyddwr y rhaglen, fel arfer ar ddiwedd y cydnabyddiaethau ar flaen rhaglenni, a bydd union ffurf cydnabyddiaeth o'r fath yn unol â Chanllawiau Cydnabyddiaeth y BBC.

36.7 Bydd yn adrodd i'r Cynhyrchydd ar bob mater sy'n ymwneud â chynhyrchu'r rhaglen(ni) sy'n dod o dan y telerau hyn (os yw'n briodol), ar yr amod fodd bynnag y gall drafod yn gyfrinachol gyda'r Pennaeth Cynhyrchu, uwch aelod o adran Adnoddau Dynol y BBC, neu gyswllt priodol y BBC, unrhyw faterion sylweddol y maent wedi methu â dod i gytundeb â'r Cynhyrchydd yn eu cylch ar ôl gwneud pob ymdrech resymol.

36.8 O ran yr indemniad a nodir yn y Contract hwn, ni fyddwch Chi'n atebol mewn perthynas ag unrhyw ddeunyddiau a ddarperir i Chi gan y BBC

**37. Diogelu Data**

37.1 (a) Mae "Cyfraith Diogelu Data" yn golygu Deddf Diogelu Data 2018, lle bo'n berthnasol, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679/EU ("GDPR") a/neu GDPR fel y'i deddfir gan y Deyrnas Unedig ("GDPR y DU"), ac unrhyw ddeddfau perthnasol eraill sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol o dan y Contract, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2003, a'r holl reoliadau, codau ymarfer rheoleiddiol, safbwyntiau a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys rhai a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

(b) bydd gan y termau "Rheolydd", "Gwrthrych y Data", "Cyfraith Ddomestig", "Sefydliad Rhyngwladol", "Aelod-wladwriaeth", "Data



© BBC 2026

Personol”, “Tor Diogelwch Data Personol”, “Prosesu”, “Prosesydd”, “Awdurdod Goruchwylio”, a “Trydedd Wlad” yr un ystyron ag sydd wedi’u nodi yn y Gyfraith Diogelu Data berthnasol.

37.2. Unigolyn a Enwir fel Rheolydd. Ac eithrio mewn perthynas â’r gwaith Prosesu a nodir yn y Dogfennau Archebu (“Prosesu Penodol”), rydych Chi a’r BBC yn Rheolyddion annibynnol ac ar wahân, a byddwch Chi’n cydymffurfio â’ch rhwymedigaethau Chi o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

37.3. Unigolyn a Enwir fel Prosesydd ar ran y BBC. Pan fyddwch Chi’n prosesu data ar ran y BBC, byddwch Chi’n Brosesydd ar ran y BBC mewn perthynas â Phrosesu Penodol, a bydd Cymalau 37.4 i 37.11 yn berthnasol, fel sy’n ofynnol gan Gyfraith Diogelu Data.

37.4. Cyfarwyddiadau. Dim ond yn unol â chyfarwyddiadau a gofnodwyd gan y BBC y byddwch Chi’n ymgymryd â Phrosesu Penodol, fel y bydd y cyfarwyddiadau hynny’n cael eu diwygio o bryd i’w gilydd yn ôl disgresiwn llwyr y BBC, ac eithrio lle —

(a) Mae’n ofynnol i Chi, neu Eich is-broseswyr a/neu asiantau a ganiateir, o dan Gyfraith Ddomestig ymgymryd â Phrosesu Penodol mewn modd arall nag yn unol â chyfarwyddiadau a gofnodwyd gan y BBC, neu

(b) yn eich barn resymol Chi, mae cyfarwyddyd y BBC yn torri Cyfraith Ddomestig, ac

(c) yn y naill achos neu’r llall, byddwch Chi’n rhoi gwybod i’r BBC yn brydlon, oni bai fod Cyfraith Ddomestig yn eich gwahardd Chi rhag gwneud hynny.

37.5. Diogelwch. Byddwch Chi’n sicrhau bod Prosesu Penodol yn ddiogel drwy roi mesurau diogelwch technegol a sefydliadol ar waith nad ydynt yn llai llym na’r rhai sydd wedi’u nodi yn adran diogelu gwybodaeth y BBC, sydd i’w gweld yn https://www.bbc.co.uk/supplying/documents/bbc-third-party-information-security-requirements-bbc-data-v1.4.pdf (“Gofynion Diogelwch Gwybodaeth Trydydd Parti’r BBC”) ac fel y bydd y BBC yn eu diwygio, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr.

37.6. Cyfrinachedd. Dim ond i bobl sydd o dan eich awdurdod Chi sydd wedi ymrwymo i gyfrinachedd neu sydd o dan rwymedigaeth statudol briodol o ran cyfrinachedd a dim ond ar sail angen gwybod y byddwch Chi’n rhoi mynediad at y Data Personol sy’n cael ei Brosesu ar ran y BBC (“Data Personol Penodol”).

37.7. Is-Broseswyr. Mae gennych Chi awdurdod cyffredinol gennym ni i dderbyn gwasanaeth gan Brosesydd arall (“Is-Brosesydd”) i ymgymryd â gwaith Prosesu Penodol. Fodd bynnag—

(a) Byddwch Chi’n rhoi gwybod i’r BBC ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig sy’n ymwneud ag ychwanegu neu amnewid Is-Brosesydd,



© BBC 2026

o leiaf 30 diwrnod cyn mynd ati i ychwanegu neu amnewid yn y fath fodd,

(b) Byddwch Chi'n gosod rhwymedigaethau diogelu data sy'n union yr un fath â'r rhai a nodir yn y cymal hwn, neu nad ydynt yn llai llym na'r rheini, ar yr Is-brosesydd drwy gontract, a byddwch Chi'n sicrhau bod copi ar gael i'r BBC ar gais, ac

(c) Byddwch Chi'n gwbl atebol am unrhyw fethiant gan yr Is-Brosesydd i gyflawni ei rwymedigaethau diogelu data.

37.8. Cymorth. Byddwch yn darparu ac yn caffael gwybodaeth a chymorth rhesymol yn brydlon i alluogi'r BBC i gyflawni ei rwymedigaethau i wneud y canlynol i—

(a) ymateb i geisiadau gan Wrthrychau Data yn unol â'r Gyfraith Diogelu Data,

(b) dangos eich bod Chi (ac unrhyw is-broseswyr a/neu asiantau a ganiateir) yn cydymffurfio â'r cymal hwn, gan gynnwys cadw cofnodion o dan y Gyfraith Diogelu Data berthnasol,

(c) cydymffurfio â rhwymedigaethau eraill sydd wedi'u gosod ar y BBC gan Gyfraith Diogelu Data, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(i) diogelwch,

(ii) asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd; ac

(iii) ymgynghoriad, ymchwiliad, archwiliad ac ymholiadau gan Awdurdod Goruchwylio.

37.9. Tor Diogelwch Data Personol. Mewn unrhyw achos o Dor Diogelwch Data Personol neu amheuaeth o hynny sy'n effeithio ar Ddata Personol Penodol ("Digwyddiad Data Personol Perthnasol"), byddwch Chi, heb oedi gormodol, ac o fewn 24 awr, ar ôl dod yn ymwybodol ohono, yn rhoi gwybod i'r BBC, gan gynnwys y canlynol yn eich hysbysiad:

(a) disgrifiad o'r digwyddiad,

(b) categorïau ac amcan o nifer y Gwrthrychau Data a chofnodion data,

(c) a gafodd unrhyw Ddata Personol Penodol yr effeithir arno ei ddad-adnabod, ei roi dan ffugenw, ei wneud yn ddienw, neu ei amgryptio,

(d) enw a manylion cyswllt Eich swyddog diogelu data neu bwynt cyswllt arall mewn perthynas â'r Digwyddiad Data Personol Perthnasol,



© BBC 2026

(e) disgrifiad o ganlyniadau tebygol y Digwyddiad Data Personol Perthnasol, ac

(f) disgrifiad o unrhyw fesurau sydd wedi cael eu cymryd, neu y bwriedir eu cymryd, gennych Chi i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Data Personol Perthnasol, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, mesurau i liniaru ei effeithiau niweidiol posibl.

37.10. Dileu a dychwelyd Data Personol. Ar ddiwedd eich ymgysylltiad Chi, byddwch Chi'n dychwelyd unrhyw a phob Data Personol Penodol sydd yn eich meddiant neu sydd o dan eich rheolaeth i'r BBC ac yn dileu copïau presennol oni bai fod Cyfraith Ddomestig yn mynnu fel arall, ac os felly byddwch Chi'n rhoi gwybod i'r BBC.

37.11. Archwilio ac arolygu. Byddwch yn sicrhau bod y BBC yn gallu cael gafael ar unrhyw a'r holl wybodaeth y mae ei hangen arno i ddangos eich bod Chi'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir mewn Cyfraith Diogelu Data a'r cymal hwn a chaniatáu cynnal archwiliadau a chyfrannu atynt, gan gynnwys arolygiadau, a gynhelir gan y BBC neu archwilydd arall sydd wedi'i orfodi gan y BBC.

**38. Didyniadau**

38.1 Gall y BBC ddidynnu o'r Ffi unrhyw symiau, nad ydynt yn destun anghydfod fel arall, sy'n ddyledus gennych Chi i'r BBC neu o dan gytundeb i ddarparu cyfraniadau neu wasanaethau, boed yn gysylltiedig â'r Contract hwn neu fel arall.

38.2 Os yw'n ofynnol i'r BBC, yn unol ag unrhyw ddeddf, rheol neu reoliad perthnasol yn awr neu yn y dyfodol ar unrhyw gorff llywodraethol neu weinyddol arall cymwys, ddidynnu neu gadw arian yn ôl o unrhyw swm neu symiau, mewn perthynas â threth neu fel arall, sy'n daladwy i Chi yn unol â'r Contract, bydd y BBC:

(a) yn meddu ar hawl i dalu'r swm neu'r symiau dan sylw ar ôl didynnu'r swm hwnnw sy'n cael ei gadw'n ôl neu ei ddidynnu;
(b) yn talu'n brydlon i'r awdurdod perthnasol o fewn y cyfnod a ganiateir gan y gyfraith y swm hwnnw sy'n cael ei gadw'n ôl neu ei ddidynnu; ac
(c) yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Chi ei fod wedi gwneud y taliad i'r awdurdod perthnasol.

38.3 Os na fydd y BBC yn cadw'n ôl neu'n didynnu'r swm hwnnw, byddwch Chi'n talu pob ac unrhyw dreth a thâl arall sy'n daladwy oherwydd y symiau hynny a byddwch Chi'n indemnio ac yn cytuno i gadw'r BBC wedi'i indemnio'n llawn rhag ac yn erbyn unrhyw atebolrwydd neu draul mewn cysylltiad â chadw'n ôl neu ddidynnu'r swm hwnnw.



© BBC 2026

38.4 Os daw'r BBC i'r casgliad ei fod wedi methu â didynnu swm o daliad y gallai fod wedi ei ddidynnu yn unol â chymal 38.1 a 38.2 uchod, rydych Chi'n cytuno y bydd ganddo hawl i ddidynnu'r swm hwnnw o unrhyw daliad pellach a wneir i Chi mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys drwy wrthgyfrif symiau sy'n ddyledus ganddo ac iddo. Ni fydd arfer hawliau'r BBC o dan y cymal hwn yn cyfyngu nac yn atal arfer neu arfer pellach o hawliau o'r fath nac unrhyw hawl neu ddatrysiad arall a allai fod gan y BBC.

**39. Cytundeb Cyflawn**

39.1 Bydd y Contract hwn bob amser yn drech na'r holl delerau ac amodau eraill y gallech Chi honni eu bod yn berthnasol. Dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw rhwng y partïon y gellir diwygio'r Contract hwn.

39.2 Ac eithrio mewn perthynas â chamliwio twyllodrus, mae'r Contract hwn yn sefydlu dealltwriaeth lwyr y partïon mewn perthynas â'r Archeb ac yn disodli'r holl gytundebau, negodiadau a thrafodaethau blaenorol rhwng y partïon. Mae unrhyw atodlenni yn rhan o'r Contract hwn.

**40. Terfynu**

40.1 Ac eithrio'r rolau canlynol: Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynhyrchwyr/Cyfarwyddwr Teledu a Radio, bydd gan y BBC hawl ar unrhyw adeg i derfynu'r Contract hwn os:

(a) bydd gwasanaethau'n cael eu hatal oherwydd force majeure (gan gynnwys salwch ardystiedig neu analluogrwydd corfforol sy'n golygu nad ydych Chi'n gallu darparu'r gwasanaethau);

(b) byddwch Chi'n torri amodau unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract ac:
- (os oes modd unioni'r tor-amod) na fyddwch Chi yn ei unioni cyn pen saith (7) diwrnod (neu gyfnod byrrach y byddai'n rhesymol i'r BBC ofyn amdano) ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r tor-amod ac yn mynnu ei fod yn cael ei unioni; neu
- nad oes modd unioni'r tor-amod; neu
- bod y tor-amod yn un sylweddol neu'n torri amod arwyddocaol;

(c) byddwch Chi'n torri amodau dro ar ôl tro neu os na fyddwch Chi yn cadw at unrhyw un o delerau ac amodau'r Contract hwn

(d) Os yw canlyniadau unrhyw archwiliad meddygol a gynhaliwyd o dan gymal 11 (Iechyd) uchod yn golygu na all y BBC gael yswiriant cynhyrchu ar delerau sy'n dderbyniol i'r BBC;

(e) na fyddwch Chi'n derbyn gwiriad DBS neu'n ymaelodi â chynllun PVG, pa un bynnag sy'n berthnasol (pan fydd hyn yn ofynnol er mwyn darparu'r gwasanaethau)

(f) byddwch Chi'n dioddef digwyddiad ansolfedd o dan unrhyw ddeddf sy'n ymwneud â methdaliad, ansolfedd neu ryddhad dyledwyr unrhyw le yn y byd;



© BBC 2026

(g) Am unrhyw reswm arall yn amodol ar dalu'r Ffi lawn neu gynnig dyddiad(au) eraill fel y bydd y BBC yn penderfynu sy'n rhesymol

40.2 Os terfynir archeb fel arall am unrhyw reswm heblaw am (a) – (g) uchod, byddwch Chi'n cael eich talu am wasanaethau a ddarperir tan y dyddiad terfynu a bydd y BBC yn gwneud taliad sy'n cyfateb i ffi wythnos neu weddill yr archeb, pa un bynnag yw'r lleiaf.

40.3 Ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynhyrchwyr/Cyfarwyddwyr Teledu a Radio, gall y BBC derfynu archeb ar unwaith gan dalu am y gwasanaethau a ddarparwyd tan y dyddiad terfynu os:

(a) byddwch Chi'n torri rhwymedigaethau'n sylweddol ac nad oes modd eu hunioni
(b) byddwch Chi'n torri amodau unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract ac:
  - (os oes modd unioni'r tor-amod) na fyddwch Chi yn ei unioni cyn pen saith (7) diwrnod (neu gyfnod byrrach y byddai'n rhesymol i'r BBC ofyn amdano) ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r tor-amod ac yn mynnu ei fod yn cael ei unioni; neu
  - nad oes modd unioni'r tor-amod; neu
  - bod y tor-amod yn un sylweddol neu'n torri amod arwyddocaol;
(c) mae rhesymau y tu hwnt i'w reolaeth resymol yn atal yr ymrwymiad rhag parhau, neu
(d) Am unrhyw reswm arall yn amodol ar dalu'r Ffi lawn neu gynnig dyddiad(au) eraill fel y bydd y BBC yn penderfynu sy'n rhesymol

40.4 Os terfynir archeb am unrhyw reswm heblaw a-c uchod, mae gennych Chi hawl i dderbyn y ffi lawn a nodir yn Eich archeb sy'n parhau i fod heb ei thalu ar y dyddiad terfynu, yn amodol ar ystyried y ddyletswydd arferol i liniaru colled.

40.5 Ni waeth beth yw'r rôl, os ydych Chi i fod i gael/neu wedi cael taliad yn unol â'r cymal hwn ("taliad"), ond eich bod Chi wedi trefnu i weithio gyda'r BBC a/neu unrhyw gwmni cysylltiedig yn ystod yr un cyfnod ag y byddech Chi i fod i gael/wedi cael taliad yn iawndal am yr archeb flaenorol, yna nid yw'r taliad yn daladwy.

40.6 Mae'n ofynnol i chi ddatgelu hyn i'r BBC a thalu unrhyw daliad a wnaed yn ôl. Os daw'r BBC yn ymwybodol eich bod Chi wedi torri hyn, mae'n cadw'r hawl i naill ai fynnu bod y taliad yn cael ei ad-dalu ar unwaith a/neu derfynu'r archeb ar unwaith a pheidio â thalu.

40.7 Ar derfyn neu ddiwedd archeb, rydych yn cytuno y byddwch yn dychwelyd pob eiddo BBC, o unrhyw fath, gan gynnwys cardiau



© BBC 2026

adnabod neu ganiatadau mynediad i adeiladau BBC, i Eich Archebydd neu Gyswllt BBC waeth beth yw'r amgylchiadau a arweiniodd at y derfyn neu ddiwedd yr archeb.

**41. Cyfraith lywodraethol**

41.1 Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu a’i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob parti’n ildio i awdurdodaeth benodol Llysoedd Cymru a Lloegr.



© BBC 2026